



Bydd Wir Bydd Weithgar

# Y S G O L G Y F U N RHYDYWAUN

**Mr. Hywel Price - B.A.**

Prifathro/Headteacher

**Ysgol Gyfun Rhydywaun**

Rhodfa Lawrence/Lawrence Ave, Penywaun, Aberdâr, CF44 9ES

Ffôn/Tel: 01685 813500; Ffacs/Fax: 01685 812208

[ysgol@rhydywaun.org.uk](mailto:ysgol@rhydywaun.org.uk)

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae llawer o rieni yn anymwybodol o'r hyn mae plant yn eu harddegau yn wneud ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar eu ffonau symudol. Mae llawer o rieni hefyd yn anymwybodol o secstio (*sexting*) a ddim yn deall yn llwyr y canlyniadau difrifol i'r pobl ifanc sydd yn ymwneud â hyn.

Mae canlyniadau cyfreithiol a chymdeithasol difrifol i'r bobl ifanc sydd yn ymwneud â hyn, fel dioddefwyr a'r rhai sydd yn anfon y negeseuon.

### **Beth yw secstio (*sexting*)?**

- ¥ Cyfnewid delweddau o natur rywiol gyda chariad
- ¥ Cyfnewid delweddau o natur rywiol gyda rhywun arall
- ¥ Trosglwyddo negeseuon o natur rywiol gyda grwpiau o ffrindiau heb ganiatad

Mae'r ysgol yn ymwybodol fod hwn yn bryder gwir ar hyn o bryd ac er ei fod yn bwnc anodd i'w drafod, mae rhieni angen monitro'r hyn mae plant yn ei wneud ar eu ffonau symudol a safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae'n ymddangos mai *Facebook*, *Twitter* a *Snapchat* yn arbennig sydd yn fwyaf poblogaidd am anfon lluniau a negeseuon anwedus. Y dyddiau hyn mae pobl ifanc yn cofnodi eu bywyd funud wrth funud. Mae'r delweddau maen nhw'n eu creu yn gallu cael eu copio, eu defnyddio, eu newid a'u postio ar-lein a'u hanfon i eraill mewn eiliadau.

Fel ysgol rydyn ni'n buddsoddi amser i addysgu ein disgyblion ar faterion e-ddiogelwch ac ar ganlyniadau anfon lluniau a negeseuon anwedus, ond nid yw gywbodaeth a rhybuddion gan yr ysgol yn unig yn ddigon. Gallwn ni gosbi unigolion am fod yn gysylltiedig ag ymddygiad o'r math hwn, gan gynnwys gwaharddiadau o'r ysgol a gellir cysylltu gyda'r heddlu. Mae'r canlyniadau yn rhai tymor hir ac yn gallu cael effaith negyddol arwyddocaol ar ddyfodol yr unigolyn ifanc.

### **Beth allwch chi ei wneud?**

Rydym yn annog POB rhiant i edrych ar y wefan isod am fwy o wybodaeth ar y mater hwn a chyngor am sut i fonitro a thrafod y materion pwysig hyn gyda'ch plant.

[www.thinkyounow.co.uk/parents](http://www.thinkyounow.co.uk/parents)

- ¥ Trafod gyda'ch plant am y ffaith fod lluniau, unwaith maen nhw arlein, yno am byth a does dim rheolaeth drostynt (hyd yn oed *Snapchat*)
- ¥ Annog eich plentyn i feddwl cyn postio lluniau neu negeseuon
- ¥ Rhybuddio eich plentyn yn erbyn trosglwyddo delweddau o'u hunain ac eraill

Rydyn ni'n ddiolchgar am eich cydweithrediad ar y mater hwn a byddwn yn cynnal gweithdy i rieni ar y testun yn ystod Tymor yr Haf.



Pwyllgor Addysg Rhondda Cynon Taf  
Rhondda Cynon Taff Education Committee



Yn gywir,

Lisa Williams  
Prifathrawes